


19eg Ganrif

Mae Cyfeiriadur De Cymru 1835 Pigot, sy'n rhestru proffesiynau cyn i gofrestru sifil ddechrau, yn nodi bod yna danerdy yn 'Rhayader' (yna 'Rhaeadr') a ddangosir yn y darlun isod. Roedd y rhain yn gyffredin ym Mhrydain hyd at ddiwedd y 19^{eg} Ganrif. Gellid cynhyrchu lledr trwy ddefnyddio toddiant llysiau i'w daneru. Proses oedd hon o breserfio croen anifail gan ddefnyddio tannin, sef cemegyn sydd i'w gael mewn coed derw. Os oedd modd, cafwyd rhisgl o goedlannau derw 25-30 mlwydd oed a'i falu mewn melin risgl cyn ei ychwanegu at ddŵr i ffurfio toddiant tannin. Roedd y croen wedyn yn cael ei drochi yn y toddiant am hyd at 18 mis. Byddai'r lledrau hyn wedyn yn cael eu defnyddio ar gyfer gwadnau esgidiau a harneisiau ceffylau, ymhlith pethau eraill. Gallai'r broses hon gymryd hyd at dair blynedd.



The tannery from Rhayader opened to the public in April, 1968

20fed Ganrif

Rhaeadr Gwy oedd lleoliad y tanerdy lledr derw olaf yng Nghymru, gan weithredu o ganol y 18^{fed} Ganrif tan ddechrau'r 1950au (Geraint Jenkins, 1973). Yng nghyfrifiad 1901 o Rhaeadr Gwy, rhestrir 13 o bobl leol â galwedigaeth yn ymwneud â lledr, gan ddangos bod y gwaith hwn wedi parhau i'r 20^{fed} ganrif. Gallai safleoedd fel Cefn Cenarth fod wedi bod yn ffynonellau coed derw ar gyfer y broses hon, yn ystod y cyfnod hwn, gyda thystiolaeth bod coedlannau wedi mynd rhagddo ar y safle.

Er ei bod yn debygol bod Cefn Cenarth wedi bod yn goetir ers datblygiad coedwigoedd gwyllt ar ôl yr oes ia ddiwethaf, rydyn ni'n gwybod bod rhannau mawr o goed wedi'u cwmpo yn ystod y ddau Ryfel Byd. O ganlyniad, mae llawer o'r coed yn debyg o ran oedran, a does fawr o amrywiad yn strwythur y coetir. Mae'r canopi hynod drwchus o ganlyniad i hyn yn creu lleithder uchel ac amodau perffaith i gennau a mwsogl prin dyfu. Mae hefyd yn cefnogi'r carped o lus sydd i'w weld yn y coedwigoedd yn y gogledd a'r de.

Plannwyd coedwigoedd masnachol yn y 1950au a'r 1970au, ac aethpwyd ati i wella rhostir ucheldirol ar gyfer pori defaid. Yn 2011, cwmpwyd ardal o sbrws Sitca, pinwydd camfrig a llarwydd Japan a'u teneuo i adfer ac ailgysylltu'r coetiroedd brodorol. Cwmpo'r sbrws ddechreuodd adfer y rhostir ucheldirol ar gopaon y brynau a grug sydd bellach yn addurno'r tir, gan gefnogi rhywogaethau adar yn cynnwys corheddydd y waun a'r ehedydd unwaith eto.

Unwaith y cwblhawyd cwmpo'r coed, plannodd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed 6,000 o goed ifanc o darddiad lleol, sef derw mes di-goes yn bennaf gyda chymysgedd da o fedw llwyd, criafol, drain gwynion, coed afalau surion ac aethnenni. Deng mlynedd yn ddiweddarach, mae'r coed ifanc wedi datblygu'n dda a'r coetir yn fwy amrywiol, o ran oedran a strwythur rhywogaethau'r coetir.

Lichen Ridge
**Cefn
Cenarth**
Radnorshire Wildlife Trust

Hanes Cefn Cenarth

Cynefin brith 18 hectar ydy Cefn Cenarth, yn cynnwys coetir derw mes di-goes hynafol, planhigfa coed llarwydd a rhostir ucheldirol. Mae'r coetir derw mes di-goes yn debyg i eraill yn yr ardal, gan gynnwys y coetir derw yng ngwarchodfa natur Gilfach.



Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediaid Tirlenwi



Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Protecting **wildlife** for the future.

Radnorshire Wildlife Trust